GWASANAETH SAFONAU MASNACH, DIOGELU BWYD AC IECHYD

Adolygiad o Berfformiad Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2025/26

1.0 Cyflwyniad

Y ddogfen hon yw'r adolygiad blynyddol o berfformiad ym maes gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r Fframwaith Gorfodi Cyfraith Bwyd. Mae wedi cael ei gyflwyno i'r Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd i gael ei gymeradwyo.

2.0 Arolygiadau / Ymyriadau wedi'u Cynllunio 2025/2026

2.1.0 Hylendid Bwyd

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y safleoedd a arolygwyd yn ôl band risg (a'r ffigur cyfunol ar gyfer safleoedd risg uchel (Bandiau A, B ac C), sy'n ddangosydd perfformiad a gedwir yn lleol).

Arolygiadau Hylendid Bwyd Rhagweithiol – yn ôl Categori Band Risg

CATEGORI RISG	CYDBWYSEDD O RAN YMYRIADAU NEWYDD / HEN YMYRIADAU SY'N OFYNNOL / WEDI'U CYNLLUNIO ERBYN 31/3/2025 (HEB GYNNWYS UNRHYW SAFLEOEDD SY'N RHOI'R GORAU I FASNACHU)	NIFER Y SAFLEOEDD A AROLYGWYD / YR YMYRIADAU A GYNHALIWYD FEL YR OEDD PETHAU AR 31/3/2025	ALLDRO / CYNHALIWYD
Risg Uchel			
A	**3 safle** (2 ymweliad yr un yn ofynnol, os byddant yn aros yng Nghategori Risg A)	**3 safle wedi'u harolygu** **(noder: cynhaliwyd 4 arolygiad** – oherwydd newidiadau o ran Categori Risg)	**100%** **(3/3)**
B	**51**	**51**	**100%** **(51/51)**
C	**313**	**282**	**90.01%** **(282/313)**
CYFANSWM ABC (Dangosydd Perfformiad Lleol)	***364***	***333***	***91.48%*** ***(333/364)***

Sylwebaeth

Mae'r ffocws yn parhau i fod ar arolygiadau rhagweithiol ar safleoedd risg uchel. Cafodd yr holl safleoedd Categori Risg A a B (y risg uchaf) eu harolygu. O ran safleoedd Categori C, arolygwyd 282 allan o 313 o safleoedd a bydd y gweddill yn cael eu harolygu yn ystod 2026/27.

Yn sgil trosglwyddo'r gronfa ddata o Flare i Idox, nid yw'r data ar gyfer safleoedd risg is (D ac E) wedi cael eu gwirio eto ac felly maent wedi'u hepgor o'r siart uchod.

Bydd safleoedd risg is (Bandiau Risg D ac E) yn dychwelyd i amlderau'r gyfundrefn arolygu cyn gynted â phosibl.

Mewn archwiliad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) ym mis Rhagfyr 2025, dywedwyd nad oes gan y gwasanaeth adnoddau digonol i gyflawni ei ddyletswydd i gynnal ymyriadau ar yr amlder gofynnol yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, ac felly ei fod yn peri risg i iechyd y cyhoedd. Roedd y cynllun gweithredu y cytunwyd arno wedi hynny yn cynnwys achos busnes i'r uwch-reolwyr dros adnoddau ychwanegol.

2.1.1 Dangosydd Perfformiad Cydymffurfio ar y Cyfan: (PAM009)

- Roedd y Dangosydd Perfformiad alldro ar gyfer 2025/26 fel a ganlyn: 95.83% (yn seiliedig ar 1,081 o 1,128 o safleoedd yn ennill sgôr hylendid bwyd o 3/4/5 allan o 5).

2.1.2 Sgoriau Hylendid Bwyd:

- Cynhaliwyd 439 o arolygiadau Hylendid Bwyd (yn bennaf ar gyfer busnesau newydd, a'r rhai a oedd yn y categorïau risg uwch), a rhoddwyd Sgoriau Hylendid Bwyd lle roedd hynny'n berthnasol.
- Gwnaed 40 o geisiadau i ailsgorio Hylendid Bwyd a gwneud cynnydd mewn perthynas â phob un ohonynt (codir tâl am y rhain, yn unol â'r ddeddfwriaeth).

Mae data wedi cael eu lanlwytho'n rheolaidd i wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (o leiaf unwaith bob 28 diwrnod), sy'n cyrraedd y safon ofynnol.

Safonau Bwyd: Ymyriadau wedi'u Cynllunio

Categori Risg	Ymyriadau wedi'u cynllunio erbyn 31/3/2026 (heb gynnwys safleoedd sydd wedi rhoi'r gorau i fasnachu ond gan gynnwys safleoedd a gariwyd ymlaen)	Nifer yr Ymyriadau a oedd wedi'u Cynnal fel yr oedd pethau ar 31/3/2026	% wedi'u cwblhau
A **(bob 12 mis)**	**13**	**13**	**100%**
B **(bob 24 mis)**	**273**	**118**	**43%**
C **(bob 60 mis)**	**196**	**189**	**96%**
Heb eu sgorio (heb gael ymweliad eto)	**182**	**90**	**49%**

Roedd ôl-groniad y rhaglen ymyriadau wedi cynyddu ac mae'n annhebygol o leihau heb gapasiti / adnoddau ychwanegol. Ar ben hynny, bydd y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd diwygiedig yn cael ei roi ar waith ym mis Hydref 2026 ac, er nad yw'r effaith yn gwbl hysbys, disgwylir y bydd yn cynyddu nifer yr ymyriadau wedi'u cynllunio a nifer yr ymyriadau adweithiol.

Mewn archwiliad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) ym mis Rhagfyr 2025, dywedwyd nad oes gan y gwasanaeth adnoddau digonol i gyflawni ei ddyletswydd i gynnal ymyriadau ar yr amlder gofynnol yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, ac felly ei fod yn peri risg i iechyd y cyhoedd. Roedd y cynllun gweithredu y cytunwyd arno wedi hynny yn cynnwys achos busnes i'r uwch-reolwyr dros adnoddau ychwanegol.

Cafodd dau gontractwr safonau bwyd / hylendid bwyd eu cyflogi dros dro i weithio ar ymyriadau bwyd, ac maent wedi helpu i leihau'r ôl-groniad o ymyriadau ar gyfer y ddau wasanaeth. Achosion sy'n gysylltiedig ag alergenau yw'r achosion mwyaf cyffredin o dorri deddfwriaeth y daw'r gwasanaeth ar eu traws, a hynny naill ai ar safleoedd arlwyo neu mewn perthynas â bwydydd wedi'u pacio ymlaen llaw i'w gwerthu'n uniongyrchol ar lefel manwerthu - mae hyn yn cyd-fynd â'r canfyddiadau ledled Cymru. Ar adeg ysgrifennu, mae hyn wedi arwain at roi sawl rhybudd a rhybuddiad, ond nid oes erlyniadau wedi cael eu cychwyn hyd yma. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi bod yn weithgar o ran delio â phroblem gynyddol bwyd wedi'i fewnforio nad yw'n cydymffurfio â gofynion labelu, a datgan alergenau, sy'n fwy o destun pryder.

Mae gan y gwasanaeth swyddog ar lwybr graddfa uwch sy'n dechrau ar y fframwaith i gwblhau ei gymhwyster fel Swyddog Safonau Masnach o fewn dwy flynedd. Yn anffodus, bu dwy flynedd o oedi cyn iddo ddechrau ar fframwaith y cymhwyster. Unwaith eto, mae'r gwasanaeth wedi wynebu absenoldebau staff estynedig, a bydd hyn yn parhau yn ystod 2026.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd y gwasanaeth wedi bwriadu cynnal mwy o gyrsiau hyfforddi ar gyfer staff arlwyo ysgolion a pherchnogion siopau cludfwyd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, gan weithio gyda chydgysylltwyr grwpiau pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol lleol. Yn anffodus, oherwydd absenoldebau staff a phwysau eraill ar y gwasanaeth Safonau Masnach, ni fu modd rhoi'r hyfforddiant hwn, ond erys y bwriad hwnnw ar gyfer blynyddoedd i ddod.

2.3 Safonau Bwyd Anifeiliaid: Arolygiadau wedi'u Cynllunio

Caiff gwaith gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid yng Nghymru ei ariannu'n uniongyrchol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a'i weinyddu gan Safonau Masnach Cymru. Mae Cymru wedi'i rhannu'n amrywiol ranbarthau, ac mae Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe yn un o'r rhanbarthau hyn. Caiff gwaith cydgysylltu ledled ardal Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe ei wneud gan wasanaeth Safonau Masnach ac Iechyd Anifeiliaid Castell-nedd Port Talbot.

Caiff y rhaglen arolygu a samplu bwyd anifeiliaid ei drafftio gan yr ASB yn seiliedig ar y cofrestri busnesau bwyd anifeiliaid a ddelir gan bob awdurdod. Mae'r ASB yn categoreiddio busnesau bwyd anifeiliaid yn ôl y math o gofrestriad a chymeradwyaeth bwyd anifeiliaid. Disgwylir i bob rhanbarth arolygu nifer penodedig o fusnesau yn ei ardal.

Cafodd y rhwymedigaeth bwyd anifeiliaid ar gyfer y rhanbarth ei phennu gan yr ASB yn dilyn ymgynghoriad â'r aelod-awdurdodau.

Rhaglen Arolygiadau Safonau Bwyd Anifeiliaid 2025-26				
Math o Fusnes	**Cod Defnydd**	**Dyraniad ar gyfer CNPT**	**Arolygwyd gan CNPT**	**% a gwblhawyd**
Gwneuthurwr	A01-08 ac R101-04	2	1	50%
Cynhyrchydd Cydgynnyrch	R12	1	1	100%
Cymysgydd Symudol	R04	0	0	Amh.
Mewnforwyr		0	0	Amh.
Storfeydd	R09	4	1	25%
Dosbarthwr	A01-08, R01-03 ac R05	1	1	100%
Cludwr	R08	0	0	Amh.
Cymysgydd ar y Fferm	R10 (atodiad II)	1	1	100%
Cymysgydd ar y Fferm	R11	1	0	0
Gwneuthurwr Bwyd Anifeiliaid Anwes	R06	1	1	100%
Cyflenwr Deunyddiau Bwyd Anifeiliaid/Bwyd Dros Ben	R07	5	5	100%
Cyfanswm y safleoedd “uwchlaw'r llinell” (busnesau sy'n trin neu'n cyflenwi bwyd anifeiliaid)		15	11	73%
Ffermydd da byw R13	R13	52	28	54%
Ffermydd Tir Âr	R14	3	0	0
Cyfansymiau		**70**	**39**	**56%**

Fel ym mhob blwyddyn, bu rhywfaint o wyro oddi wrth y rhaglen arolygu a oedd wedi'i phennu o ganlyniad i newidiadau i fathau o fusnesau a'r ffaith bod arolygiadau ar gyfer mathau eraill o fusnesau wedi cael eu cynnal yn eu lle. Cafodd y rhwymedigaeth ar gyfer 2025/26 ei chadarnhau'n gynharach na'r hyn a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd

y gwasanaeth yn rhagweld y byddai'r gwaith yn ddisgwyliedig, a dechreuodd gynnal arolygiadau yn ystod Chwarter 1, gan alluogi'r rhanbarth i gyrraedd ei darged.

Mae gan y gwasanaeth ddau swyddog sy'n delio ag arolygiadau bwyd anifeiliaid ar ffermydd, a dyma swmp yr ymyriadau ym maes bwyd anifeiliaid. Yn anffodus, mae un o'r swyddogion hynny wedi bod yn absennol am ran sylweddol o'r flwyddyn ac nid yw wedi llwyddo i gwblhau'r arolygiadau roedd disgwyl iddo eu cwblhau. O ganlyniad i hynny, mae swyddog arall yn cael hyfforddiant ar gymhwysedd ym maes bwyd anifeiliaid er mwyn cynnig gwydnwch ychwanegol ar gyfer y dyfodol.

Caiff gwybodaeth am achosion o dorri deddfwriaeth bwyd a bwyd anifeiliaid ei rhannu â phartneriaid, megis y tîm Hylendid Bwyd, yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd a'r Safonau Masnach Cenedlaethol drwy'r gronfa ddata gwybodaeth genedlaethol, a'i defnyddio i bennu blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth.

3.0 Samplau

3.1 Hylendid Bwyd

Yn 2025/26, cafodd cyfanswm o 209 o samplau eu cymryd a'u cyflwyno i gael eu dadansoddi yn labordy Iechyd Cyhoeddus Cymru yng Nghaerfyrddin.

Safonau Bwyd

Mae'r gwasanaeth Safonau Masnach yn dal yn aelod o'r fforwm samplu lleol, sef Grŵp Morgannwg.

Cymerodd y gwasanaeth ran mewn tri ymarfer samplu fel rhan o raglen 2025/26. Cafodd y canlynol eu samplu a'u dadansoddi fel rhan o'r ymarferion hyn:

Math o Sampl a Gwaith Dadansoddi	Canlyniadau
10 x tomato/pupur – metelau trwm	Pob un yn foddhaol
14 x cynnyrch cig – cywirdeb datganiadau ynghylch cynnwys cig	Roedd chwe chanlyniad yn anfoddhaol, lle roedd y cynnwys cig a ddatganwyd yn fwy na'r hyn a oedd yn y cynhyrchion. Rhoddwyd rhybuddion a chafodd y safleoedd eu hailsamplu, ac mae pob un bellach yn cydymffurfio.
4 x diod coffi â llaeth amgen – presenoldeb cynnyrch llaeth mewn diodydd ceirch	Pob un yn foddhaol

Yn ychwanegol at y rhain, gwnaed gwaith samplu adweithiol, gyda'r prif ffocws ar gydymffurfiaeth â gofynion o ran alergenau a labelu.

Math o Sampl a Gwaith Dadansoddi	Canlyniadau
6 x bwyd wedi'i fewnforio – labelu a gwybodaeth am alergenau	Pob un yn anfoddhaol
3 x cacen gaws – labelu a gwybodaeth am alergenau	Pob un yn anfoddhaol
4 x pryd cludfwyd – gwybodaeth am alergenau	1 yn anfoddhaol

Mae bwydydd wedi'u mewnforio, yn enwedig losin, wedi cael eu nodi fel problem yn lleol, ac felly gwnaed gwaith samplu. Rhoddwyd gwybod i'r ASB am dri digwyddiad, gan arwain at gydgysylltu â gwasanaeth Safonau Masnach yr awdurdod cartref er mwyn sicrhau bod cynhyrchion yn cael eu galw yn ôl, a chafodd tri arall eu hatgyfeirio at yr awdurdod cartref perthnasol a'u tynnu oddi ar y farchnad yn lleol. Cafodd y samplau eu cymryd o ddau fusnes, ac mae un ohonynt yn dal yn destun ymchwiliad. Arweiniodd y samplau cacennau caws a fethodd at alw cynhyrchion yn ôl yn wirfoddol ac wyth hysbysiad gwella.

Caiff gwaith samplu ac unrhyw ymchwiliadau dilynol eu monitro gan Arweinydd y Tîm Safonau Masnach a'r Uwch-swyddog Safonau Masnach drwy hapwiriadau, arfarniadau blynyddol, a chyfarfodydd adolygu staff chwarterol. Caiff manylion achosion o dorri deddfwriaeth eu rhannu â phartneriaid, megis y gwasanaeth Diogelu Bwyd ac Iechyd, yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd a'r Safonau Masnach Cenedlaethol drwy'r gronfa ddata gwybodaeth genedlaethol. Caiff y wybodaeth ei chydgasglu a'i defnyddio i bennu blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth, a hynny'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

3.3 Safonau Bwyd Anifeiliaid

Mae'r gwasanaeth wedi cymryd samplau rheolaidd o ffermydd lleol fel rhan o'i raglen fonitro, a samplau gan gynhyrchwyr bwyd anifeiliaid anwes lleol. Nid oes achosion o beidio â chydymffurfio wedi cael eu darganfod.

4.0 Ceisiadau am Wasanaeth / Gwaith Adweithiol

4.1 Hylendid Bwyd

Ceisiadau am wasanaeth (pob math) = 674. Gan gynnwys:

- Rhai sy'n gysylltiedig â gwasanaethau bwyd = 665.
- Amrywiol / arall = 9.

Hefyd, cafodd y gwasanaeth Diogelu Bwyd ac Iechyd y canlynol:

- Clefydau Heintus – hysbysiadau ynghylch achosion/digwyddiadau = 345.

Mae amseroedd ymateb targed wedi cael eu pennu ar gyfer y prif gategorïau ceisiadau am wasanaeth, ac mae dadansoddiadau'n cael eu cynnal i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gymesur â'r ffordd y caiff adnoddau eu blaenoriaethu (yn unol ag egwyddorion systemau darbodus) er mwyn defnyddio adnoddau yn y ffordd orau, gan reoli disgwyliadau'r rhai sy'n gwneud ceisiadau ar yr un pryd.

4.2 Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid: Gwaith Adweithiol (Safonau Masnach)

Ceisiadau am Gyngor ar Fwyd	Gan egin fusnesau neu gan fusnesau a ofynnodd am gyngor ar y newidiadau yn sgil “Cyfraith Natasha” yn bennaf.
Ceisiadau am Gyngor ar Fwyd Anifeiliaid	Cafwyd un cais am gyngor mewn perthynas â phartneriaeth awdurdod sylfaenol â busnes bwyd anifeiliaid lleol.
Cwynion Bwyd	Roedd y rhan fwyaf o'r cwynion yn gysylltiedig â materion yn ymwneud ag alergenau, gan gynnwys bwydydd wedi'u pacio ymlaen llaw a bwydydd rhydd, roedd chwech yn ymwneud â chyfansoddiad a disgrifiadau bwyd a bwyd yn cael ei werthu ar ôl ei ddyddiad parhauster, a chafwyd atgyfeiriadau gan yr ASB mewn perthynas â'i rhaglen

	wyliadwriaeth. Arweiniodd rhai o'i rhain at samplau dilynol a chamau a gymerwyd yn lleol.
Cwynion Bwyd Anifeiliaid	Bu cynnydd bach yn nifer yr hysbysiadau a gafodd y gwasanaeth gan APHA ynglŷn â'r gwneuthurwr bwyd anifeiliaid anwes amrwd lleol yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r busnes yn gweithio gyda'r gwasanaeth Safonau Masnach, ac mae'r swyddog ymchwilio yn hyderus y bydd yn sicrhau cydymffurfiaeth.

Caiff ceisiadau am gyngor a chwynion a phatrymau rhybuddion bwyd eu bwydo i mewn i gynllun ymyriadau'r gwasanaeth Safonau Masnach ac Iechyd Anifeiliaid a'r gronfa ddata gwybodaeth genedlaethol ac mae hyn, yn ei dro, yn arwain at bennu blaenoriaethau a meysydd gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Caiff amseroedd ymateb a chyngor / ymchwiliadau eu monitro gan Arweinydd y Tîm Safonau Masnach a'r Uwch-swyddog Safonau Masnach drwy hapwiriadau, arfarniadau blynyddol, a chyfarfodydd adolygu staff chwarterol.

5.0 Gwaith Hyrwyddo

5.1 Gwaith Hyrwyddo Hylendid Bwyd

Bu modd i'r gwasanaeth ddefnyddio amrywiaeth o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol i rannu negeseuon am bynciau yn ymwneud â diogelwch bwyd, yn arbennig aildrydar gwybodaeth gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

5.2 Gwaith Hyrwyddo Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Parhaodd y gwasanaeth Safonau Masnach ac Iechyd Anifeiliaid i ffurfio cysylltiadau agosach â gwasanaethau Cyngor Castell-nedd Port Talbot sy'n cefnogi busnesau, megis y tîm Datblygu Economaidd.

Mae gan y gwasanaeth gyfrifon Twitter, Facebook ac Instagram, ac mae'r rhain wedi bod yn ffordd effeithiol o rannu negeseuon â busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid.

Caiff busnesau bwyd anifeiliaid newydd eu darganfod yn rheolaidd, a chysylltir â nhw er mwyn sicrhau eu bod wedi'u cofrestru â'u cymeradwyo'n gywir.

6.0 Awdurdod Sylfaenol

6.1 Hylendid Bwyd, Safonau Bwyd a Safonau Bwyd Anifeiliaid

Mae'r cynllun Awdurdod Sylfaenol ar waith ledled y DU, ac mae'n rhaid i bob awdurdod lleol ystyried unrhyw bartneriaethau sydd wedi'u sefydlu rhwng busnesau a rheoleiddwyr. Er nad yw'r Awdurdod wedi ymrwymo i unrhyw bartneriaethau awdurdod sylfaenol ym meysydd hylendid bwyd, safonau bwyd na safonau bwyd anifeiliaid, ceir llawer o bartneriaethau y mae'n rhaid i'r gwasanaethau eu hystyried wrth arolygu safleoedd yn y Fwrdeistref Sirol. Hefyd, mae'r gwasanaeth Safonau Masnach ac Iechyd Anifeiliaid yn aelod gweithredol o Grŵp Awdurdodau Sylfaenol Cymru - fforwm lle y gall busnesau a gorfodwyr rannu gwybodaeth a phrofiadau mewn perthynas â'r system Awdurdod Sylfaenol. Mae'r gwasanaeth Safonau Masnach wedi llwyddo i ffurfio partneriaeth â gwneuthurwr lleol mewn perthynas â safonau bwyd anifeiliaid a phwysau a mesurau.

Lle y bydd partneriaethau o'r fath yn bodoli ac wedi'u lleoli y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol, a lle y byddant yn cwmpasu busnesau sy'n gweithredu yng Nghastell-nedd Port Talbot, bydd

y gwasanaethau'n cydgysylltu â'r awdurdodau lleol perthnasol i roi adborth cyffredinol yn dilyn arolygiadau sy'n destun cynllun arolygu y cytunwyd arno (ar lefel y DU gyfan), ac adborth penodol lle y caiff achosion o dorri deddfwriaeth eu darganfod.

7.0 Digwyddiadau Diogelwch yr ASB

7.1 Hylendid Bwyd

Ni wnaeth yr un adroddiad ar ddigwyddiad diogelwch bwyd (e.e. tynnu bwyd yn ôl) beri bod angen i wasanaeth Diogelu Bwyd ac Iechyd Cyngor Castell-nedd Port Talbot gychwyn hysbysiad.

Fodd bynnag, cafodd 43 o hysbysiadau tynnu bwyd yn ôl eu cychwyn gan awdurdodau lleol eraill a'u cyflwyno gan yr ASB, a chafodd unrhyw rai lle roedd angen cymryd camau dilynol penodol eu blaenoriaethu.

7.2 Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Ni wnaeth yr un adroddiad ar ddigwyddiad diogelwch bwyd (e.e. tynnu bwyd yn ôl) a ddaeth i law beri bod angen i wasanaeth Safonau Masnach ac Iechyd Anifeiliaid Cyngor Castell-nedd Port Talbot gynnal ymyriad.

Cafodd pob hysbysiad tynnu bwyd yn ôl lle roedd angen cymryd camau penodol ei flaenoriaethu.

Maes Pwnc	**Naratif**
Rhybuddion Bwyd	Rhybuddion alergedd oedd swmp y rhybuddion. Heblaw hysbysu drwy'r cyfryngau cymdeithasol, ni fu angen i'r gwasanaeth gymryd unrhyw gamau eraill.
Rhybuddion Bwyd Anifeiliaid	Ni roddwyd gwybod am unrhyw rybuddion bwyd anifeiliaid.

8.0 Datblygu Staff / Hyfforddiant / Datblygiad Proffesiynol Parhaus

8.1 Hylendid Bwyd

Cymerodd y staff ran mewn amrywiaeth o sesiynau hunanastudio fel y brif ffordd o gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau newydd a newidiadau i ganllawiau yn ystod y flwyddyn. Cynhaliwyd cyfarfodydd tîm yn rheolaidd drwy Microsoft Teams er mwyn sicrhau cysondeb o ran dealltwriaeth ac o ran ffyrdd o weithredu. Disgwylir i swyddogion gwblhau o leiaf 20 awr y flwyddyn o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Llwyddodd yr holl swyddogion i fodloni'r gofyniad i gwblhau 20 awr o DPP yn 2025, gyda chymorth trafodaethau seiliedig ar waith rheolaidd.

Safonau Bwyd

Methodd un swyddog cymwysedig ym maes bwyd i fodloni'r gofyniad o 20 awr o DPP yn 2025. Unwaith eto, absenoldebau hirdymor oedd y rheswm dros hyn. Cafodd y swyddogion eraill eu cynorthwyo gan y ffaith bod cyrsiau ar-lein a hyfforddiant wedi'i gefnogi gan yr ASB wedi cael eu lledaenu.

Mae Arweinydd y tîm Safonau Masnach yn aelod o Grŵp Hyfforddiant Safonau Masnach Cymru ac mae'n cynnig cyfleoedd hyfforddiant rheolaidd.

Rhagwelir y bydd hyfforddiant yn parhau i fod yn gyfuniad o gyrsiau ar-lein byr, sesiynau mwy ymarferol mewn ystafelloedd dosbarth, a gweithdai mewnol.

8.3 Safonau Bwyd Anifeiliaid

Mae gan y gwasanaeth Safonau Bwyd Anifeiliaid ofyniad o 10 awr o DPP y flwyddyn, a llwyddodd yr holl swyddogion i'w fodloni, heblaw un a fethodd â gwneud hynny oherwydd absenoldebau yn bennaf. Bydd Arweinydd y Tîm Safonau Masnach a'r Uwch-swyddog Safonau Masnach yn ailddechrau cynnal rhaglen o weithdai mewnol gan wahodd gwasanaeth Safonau Masnach Abertawe fel ffordd o helpu i gynnal DPP a hyrwyddo cysondeb.

Dau swyddog sy'n cynnal yr arolygiadau bwyd anifeiliaid rheolaidd ar ffermydd, sef swmp y rhaglen orfodi. Mae'n ofynnol i'r swyddogion hyn fod yn gymwys, ond nid oes rheidrwydd iddynt feddu ar gymhwyster penodol. Fel y trafodwyd yn gynharach yn y ddogfen hon, mae un o'r swyddogion hyn wedi bod ar absenoldeb hirdymor am rannau sylweddol o'r flwyddyn, ond rhagwelir y caiff y mater hwn ei ddatrys yn 2026-2027. Ceir nifer llai o arolygiadau bwyd anifeiliaid mewn ffatrïoedd a storfeydd y mae angen iddynt gael eu cynnal gan Swyddogion Safonau Masnach sy'n meddu ar gymwysterau penodol.

9.0 Monitro

9.1 Monitro Hylendid Bwyd

Bob chwarter, adroddir ar ddangosyddion perfformiad allweddol i'r uwch-reolwyr a'r Aelod Cabinet perthnasol.

Bydd rheolwyr llinell yn cadw golwg ar dargedau arolygu a'r llwythi gwaith adweithiol fesul mis, neu'n amlach pan fydd angen.

Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn gofyn am ddata (bob chwe mis ar hyn o bryd) at ddibenion monitro. Mae'r manylion fel arfer yn cynnwys meysydd fel cyfansymiau ymyriadau yn ôl categori risg; camau gorfodi; nifer y safleoedd yn ôl math a chategori risg; samplau a gymerwyd; lefelau staffio; ceisiadau am wasanaeth penodol ac ati.

9.2 Monitro Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Mae'r ASB wedi datblygu ffurflen safonau bwyd chwemisol dros dro ers i'r System Monitro Gwaith Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS) gael ei diddymu. Mae'r manylion yn cynnwys meysydd fel cyfansymiau ymyriadau yn ôl categori risg; camau gorfodi; nifer y safleoedd yn ôl math a chategori risg; samplau a gymerwyd; lefelau staffio; cwynion a chamau gorfodi eraill.

Mae'r ASB yn parhau i ddatblygu system newydd yn lle LAEMS, sef system sy'n seiliedig ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau) a fydd yn canolbwyntio ar ddeilliannau yn hytrach nag allbynnau. Dylai'r system newydd hon gydblethu â'r broses o roi'r cynllun asesu risg bwyd newydd ar waith, sef y cynllun sydd ar waith yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ac y disgwylir iddo ddechrau yng Nghymru yn 2026.

Caiff adroddiadau monitro bwyd anifeiliaid eu cyflwyno i'r ASB bob chwarter, a chaiff adroddiad terfynol ei gyflwyno ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Caiff llwyth gwaith rhaglen ymyriadau pob swyddog (gan gynnwys targedau arolygu) ei deilwra yn unol ag arddull gweithio pob swyddog.

Caiff adroddiadau ar gynnydd yr adran eu cyflwyno i'r uwch-reolwyr a'r Aelod Cabinet perthnasol bob chwarter.

Bydd Arweinydd y tîm Safonau Masnach a'r Uwch-swyddog Safonau Masnach yn monitro targedau arolygu a llwythi gwaith adweithiol swyddogol yn ffurfiol yn ystod yr adolygiad chwarterol. Os caiff problemau o ran perfformiad eu darganfod, caiff yr amlder ei gynyddu. Caiff cymhorthion cof bwyd / bwyd anifeiliaid ac adroddiadau ar ôl arolygiadau eu hadolygu gan yr Uwch-swyddog Safonau Masnach yn bennaf, gyda goruchwyliaeth gan Arweinydd y Tîm Safonau Masnach.

Gwasanaeth Safonau Masnach Castell-nedd Port Talbot sy'n cydgysylltu'r ffordd y caiff gwasanaeth bwyd anifeiliaid rhanbarth Castell-nedd Port Talbot / Abertawe ei ddarparu, a chaiff gwybodaeth am gynnydd arolygiadau ei bwydo'n ôl i Safonau Masnach Cymru. Bydd Arweinydd Tîm Safonau Masnach ac Uwch-swyddog Safonau Masnach Castell-nedd Port Talbot yn canfod problemau o ran perfformiad drwy asesu yn erbyn y rhaglen arolygu, ac yn mynd i'r afael â nhw.

Cafodd y weithdrefn fonitro fewnol ei hadolygu a'i diweddaru yn dilyn archwiliad yr ASB ym mis Rhagfyr 2025 a'r argymhellion dilynol.

10.0 Adolygu Polisïau / Gweithdrefnau

10.1 Hylendid Bwyd / Safonau Bwyd / Safonau Bwyd Anifeiliaid

Mae'r newid i weithio ystwyth ar gyfer yr holl swyddogion wedi arwain at rai manteision, ac mae wedi cyflymu'r broses o ddatblygu systemau a gweithdrefnau ar gyfer gweithio ar-lein ac o bell. Mae'r rhain yn parhau i gael eu mireinio i gyfrif am weithdrefnau gweithio newydd. O ran gweithio o bell, daw risg y bydd staff yn teimlo'n ynysig. Mae'r rheolwyr wedi cydnabod yr angen i barhau i gyfathrebu â'r timau, a hwyluso cyfleoedd i gydweithwyr weld ei gilydd ‘yn y cnawd’ lle bo modd, er mwyn sicrhau nad yw swyddogion yn teimlo'n ynysig ac yn unig wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Cafodd yr holl bolisïau a gweithdrefnau eu hadolygu a'u diweddaru er mwyn paratoi ar gyfer Archwiliad yr ASB ym mis Rhagfyr 2025, a chafodd yr holl argymhellion eu rhoi ar waith yn dilyn yr archwiliad yn unol â'r cynllun gweithredu dilynol. Mae'r gwasanaethau'n adolygu polisïau a gweithdrefnau'n barhaus, a byddant yn parhau i'w hadolygu a'u diweddaru fel y bo'n briodol.

11. Casgliadau

Mae cyflwyno system gwybodaeth reoli newydd Idox yn parhau i effeithio ar y ddau dîm. Er bod rhai atgyweiriadau wedi cael eu gwneud i fynd i'r afael â rhai o'r prif broblemau, erys rhai problemau sylweddol, megis adrodd ar ystadegau a lanlwytho sgoriau hylendid bwyd. Mae staff wedi dod yn gyfarwydd â defnyddio'r system o ddydd i ddydd, ond mae adalw data hanesyddol yn dal i beri heriau.

Mewn archwiliad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) ym mis Rhagfyr 2025, dywedwyd nad oes gan y gwasanaeth adnoddau digonol i gyflawni ei ddyletswydd i gynnal ymyriadau yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, ac felly ei fod yn peri risg i iechyd y cyhoedd. Mae argymhellion yn yr adroddiad ar archwiliad yr ASB yn tynnu sylw at yr angen am adnoddau ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth, sef 3.2 aelod CALl o staff cymwysedig a chymwys, er mwyn galluogi'r gwasanaeth i gyflawni dyletswydd diogelwch bwyd yr Awdurdod yn unol â'r cytundeb fframwaith a'r Cod Ymarfer.

Mae'r gwasanaeth Safonau Masnach wedi wynebu problemau staffio sydd wedi effeithio ar berfformiad a chynlluniau ar gyfer y flwyddyn. Nid yw'n debygol y caiff y problemau staffio hyn eu lliniaru yn ystod y flwyddyn i ddod, a bydd dibyniaeth ar staff asiantaeth yn parhau. Bydd yr adran yn parhau i ddefnyddio'r cysylltiadau rhanbarthol sydd wedi cael eu ffurfio mewn perthynas â dosbarthu bwyd anifeiliaid a safonau bwyd.

Dylai trefniadau gweithio a chasglu gwybodaeth rhanbarthol barhau i gael eu datblygu, ac mae gan y gwasanaeth flaenoriaethau clir mewn perthynas â bwyd a bwyd anifeiliaid.

Mae'r tîm Diogelu Bwyd ac Iechyd wedi llwyddo i recriwtio i bob swydd wag, a bydd yn gallu blaenoriaethu arolygiadau ac ymyriadau ar y safleoedd risg uwch, ynghyd â busnesau newydd, a dechrau mynd ati'n gyflym i glirio ôl-groniadau ar safleoedd risg is.

12. Adolygiad o'r Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth

Rwyf wedi adolygu'r adroddiad hwn ac rwy'n ei gymeradwyo.



Mr Ceri Morris

Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd